**Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (y Rhwydwaith):**

**Casglu Data – Canllaw i Athrawon**

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys arweiniad i bennaeth penodedig yr ysgol ar gyfer yr arolwg.

## Cyn Casglu Data'r Rhwydwaith:

- **Profi'r ddolen (gwirio eich system TG)**

Bydd casglu data yn agor rhwng 16 Medi ac 20 Rhagfyr 2024.

Agorwch y **ddolen i'r prawf** isod ar gyfrifiadur dysgwr (gan ddefnyddio manylion mewngofnodi dysgwr, os yw'n briodol) **CYN** i chi ddechrau casglu'r data yn eich ysgol i sicrhau y bydd yr arolwg byw yn agor ac yn arddangos yn gywir ar system TG eich ysgol.

**Dolen i'r prawf:** https://ipsos.uk/shrntest

- **Taflen Wybodaeth i Rieni/Gofalwyr**

Mae'n rhaid gweinyddu Arolwg Myfyrwyr y Rhwydwaith mewn ffordd foesegol. Mae'n rhaid rhoi gwybod i rieni/gofalwyr y grwpiau blwyddyn sy'n cymryd rhan **o leiaf bythefnos** cyn cynnal yr arolwg. Mae'n rhaid i chi ddosbarth Taflen Wybodaeth i Rieni/Gofalwyr y Rhwydwaith gan ddefnyddio dau ddull cyfathrebu (e.e. ap yr ysgol, e-bost, neges destun, ac ati).

Mae'r ohebiaeth yn gofyn i rieni/gofalwyr gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol os nad ydynt am i'w plentyn gymryd rhan. Mae'n rhaid i'ch ysgol optio allan o gyfathrebu i sicrhau nad yw'r dysgwyr hynny yn llenwi'r arolwg. Darparwch weithgarwch arall i'r dysgwyr nad ydynt yn cymryd rhan. Hefyd, bydd angen i chi roi'r nifer sy'n optio allan yn ôl grŵp blwyddyn ar Ddangosfwrdd Monitro'ch Arolwg (gweler yr adran isod am ragor o fanylion).

Rydym wedi cynnwys dolen i gwestiynau'r arolwg ar gyfer rhieni a gofalwyr i wneud penderfyniad gwybodus. Os cewch chi unrhyw geisiadau i edrych ar yr arolwg, PEIDIWCH ag anfon y ddolen i arolwg eich ysgol atyn nhw. Os byddant yn clicio arno ac yn mynd i mewn i'r arolwg, bydd eu hatebion yn cael eu cynnwys yn eich data!

**Dangosfwrdd Monitro'r Arolwg**

Byddwn yn darparu dangosfwrdd i'ch ysgol i'ch helpu i reoli casglu'ch data. Cewch y ddolen hon drwy e-bost, ynghyd â dolen i Arolwg 'byw' y Myfyrwyr. Ipsos, ein contractwr ar gyfer yr arolwg, sy'n darparu'r elfennau hyn. Cysylltwch â nhw'n uniongyrchol os cewch chi unrhyw broblemau: shrn@ipsos.com

Bydd eich dangosfwrdd yn dangos nifer go iawn y dysgwyr sy'n ateb yr arolwg. Hefyd, mae'n ofynnol i chi gofnodi cyfanswm niferoedd grwpiau blwyddyn eich ysgol a nifer y rhieni/gofalwyr sydd wedi rhoi gwybod i chi eu bod yn optio allan yn ôl grŵp blwyddyn. Bydd angen i chi gyflwyno'r wybodaeth hon erbyn **13 Rhagfyr 2024**. Mae angen y wybodaeth hon arnom ni i gyfrif cyfraddau ymateb a bydd unrhyw oedi yn effeithio ar ddarparu adroddiadau data ysgolion.

## Cyngor cynllunio

- Gwyliwch y gweminarau yma:
- Mae'n bwysig bod yr ysgol yn sicrhau bod staff yn teimlo bod ganddynt y sgiliau a'r cymorth angenrheidiol i ddelio ag unrhyw broblemau iechyd a llesiant a allai godi gan ddysgwyr wrth ateb yr arolwg. Sicrhewch fod staff a dysgwyr wedi'u cyfeirio at y meysydd cymorth priodol yn eich ysgol. Cysylltwch â Chydlynydd Ysgolion Iach Lleol Iechyd Cyhoeddus Cymru os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi.
- Mae'r arolwg yn agor i ddysgwyr am ***8am ddydd Llun, 16 Medi***.
- Gall yr arolwg gael ei ateb ar ***liniaduron, cyfrifiaduron neu lechi***. Os ydynt ar gael, gallai llechi gynnig mwy o breifatrwydd i fyfyrwyr.
- Dylai ***holl ddysgwyr blynyddoedd 3 i 6*** gael cyfle i gymryd rhan (os nad ydynt wedi optio allan).
- Mae'r arolwg yn wirfoddol – sicrhewch eich bod yn gwneud hynny'n glir i'r dosbarth pan fyddwch chi'n darllen y cyflwyniad. Trefnwch weithgaredd arall i'r rhai y byddai'n well ganddynt beidio â chymryd rhan.
- Sicrhewch nad yw'r arolwg yn effeithio'n andwyol ar amser dysgu'r disgyblion. Awgrymwn eich bod yn cynnal yr arolwg yn ystod amser y gwasanaeth yn yr amserlen neu fel rhan o'r cwricwlwm trwy'r maes dysgu iechyd a lles newydd.
- Mae'r arolwg yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg).
- Mae'n hanfodol bod yr holl ddosbarthiadau sy'n ateb yr arolwg yn rhai di-ffrwd / gallu cymysg, i sicrhau bod eich adroddiad data yn adlewyrchu eich ysgol yn gywir.
- Dylai'r rhan fwyaf o ddysgwyr ateb yr arolwg o fewn ***tuag 20 munud***, ond gallai dysgwyr iau neu ddysgwyr sydd angen mwy o gymorth gymryd mwy o amser, neu efallai bydd angen help ychwanegol i'w ateb. Cofiwch am hyn wrth amserlennu'r sesiwn.

- Bydd dysgwyr yn mynd at yr arolwg trwy ddolen i'r rhyngrwyd, a fydd yn unigryw i'ch ysgol. Argymhellwn eich bod yn postio'r ddolen ar Moodle, Blackboard neu eich mewnrwyd, fel nad oes rhaid i fyfyrwyr deipio'r cyfeiriad. Sicrhewch nad yw'r dolenni'n cael eu postio ar unrhyw wefan gyhoeddus.
- Bydd yr arolwg ar agor tan ***3.30pm dydd Gwener 20 Rhagfyr***.
- Sicrhewch fod yr holl staff yn cael eu cefnogi a bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol

## Gweinyddu'r Arolwg Myfyrwyr

Rhowch wybod i ddysgwyr am yr arolwg cyn y diwrnod a'u hannog nhw i siarad â'u rhieni/gofalwyr. Rydym yn argymell eich bod yn gwneud hyn ar yr un diwrnod ag y byddwch yn dosbarthu'r Daflen Wybodaeth i Rieni/Gofalwyr.

Adeg casglu data, sicrhewch fod gennych chi:


**a)** Restr o unrhyw rieni/gofalwyr sydd wedi rhoi gwybod i'ch ysgol eu bod yn tynnu'u plant o'r arolwg (a pharatowch weithgarwch arall)

**b)** Y ddolen i'r Arolwg Myfyrwyr ar agor ar gyfrifiaduron y dysgwyr.

**c)** Copi wedi'i anodi o'r cwestiynau (i helpu gyda dehongli).

Gofynnir i grwpiau blwyddyn iau ateb fersiwn byrrach o'r arolwg (o gymharu â dysgwyr ym Mlwyddyn 6). Mae'r copi wedi'i anodi o'r holiadur yn amlinellu pa gwestiynau y mae pob grŵp blwyddyn yn gallu eu gweld.

Dilynwch y camau canlynol ar y diwrnod y bydd eich dosbarth yn ateb yr arolwg myfyrwyr a chyfeiriwch at adran y '**Rheolau Aur**' am bethau i'w cadw mewn cof.



### Cam 1: Optio allan gan rieni/gofalwyr

Gwiriwch a yw eich ysgol wedi cael unrhyw ohebiaeth optio allan gan rieni/gofalwyr. Os ydyw, ni ddylai'r dysgwyr hyn gymryd rhan yn yr arolwg. Chwiliwch am weithgaredd arall iddynt tra bydd eraill yn ateb yr arolwg. Gwnewch hynny mewn ffordd sensitif.

### Cam 2: Cyflwyno'r arolwg

Darllenwch y wybodaeth ganlynol i'ch dosbarth:

**Cyflwyniad i'r arolwg i'w ddarllen i'r dosbarth**

**Gwybodaeth am y prosiect:**

Mae rhai pobl (ymchwilwyr) ym Mhrifysgol Caerdydd yn gweithio i'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Maen nhw'n gwneud gwaith pwysig ar iechyd a lles plant. Maen nhw'n gofyn i blant yng Ngrwpiau Blwyddyn 3 i 6 mewn llawer o ysgolion yng Nghymru gymryd rhan a'u helpu. Mae ein hysgol wedi cytuno i helpu. Mae eich rhieni/gofalwyr yn gwybod am y prosiect ac yn hapus i chi gymryd rhan os hoffech chi wneud hynny.

**Cymryd rhan:**

Gofynnir i chi ateb rhai cwestiynau amdanoch eich hun, sut rydych chi'n teimlo a beth yw eich barn chi am yr ysgol.

Nid oes angen i chi deipio eich enw ac mae eich holl atebion yn **breifat**, felly ni fydd unrhyw un heblaw am y tîm ymchwil yn gweld eich atebion, ond ni fyddant yn gwybod pwy roddodd yr atebion. Ni fydd eich rhieni ac athrawon yn gweld eich atebion, ychwaith. Gan fod hyn yn breifat, peidiwch â gofyn i'ch ffrindiau pa atebion maen nhw wedi'u rhoi.

Mae cymryd rhan yn **wirfoddol**. Mae hyn yn golygu mai chi sy'n penderfynu os ydych chi am ateb yr arolwg. Os na, bydda' i'n rhoi rhywbeth arall i chi ei wneud. Os hoffech chi ateb yr arolwg, a oes unrhyw gwestiwn nad ydych am ei ateb, gallwch ddewis opsiwn 'Dydw i ddim eisiau ateb' i **neidio heibio** iddyn nhw.

**A oes gennych chi unrhyw gwestiynau?** (caniatewch amser i ateb unrhyw gwestiynau sydd gan blant cyn eu cyfeirio at yr arolwg)

Bydd dechrau'r arolwg yn ailadrodd y pethau rwy' wedi'u dweud. Darllenwch y brawddegau a rhoi tic i'r rhai rydych chi wedi'u darllen a'u deall, ac yn cytuno iddyn nhw. Mae'n rhaid eu ticio i chi ddechrau'r arolwg. Os ydych am wneud yr arolwg, ticiwch y blwch sy'n dweud 'Gwnaf, fe wnaf i ateb yr arolwg'. Os nad ydych chi am ateb yr arolwg, ticiwch y blwch hwnnw a bydda' i'n chwilio am rywbeth arall i chi ei wneud.

(*ewch i gam 3*)

### Cam 3: Gwirio dealltwriaeth / Unrhyw gwestiynau

Gwiriwch fod dysgwyr yn deall beth maen nhw'n cael cais i'w wneud ac atebwch unrhyw gwestiynau sydd ganddynt cyn iddyn nhw ddechrau. Os na fydd ambell ddysgwr eisiau ateb yr arolwg, chwiliwch am weithgaredd arall iddynt ei wneud, fel nad ydynt yn tarfu ar y lleill.

Sensitifrwydd a diogelu: Efallai y bydd gan rai myfyrwyr sensitifrwydd ynghylch meysydd pwnc penodol. Darparwch y gefnogaeth angenrheidiol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon. Os bydd pryder diogelu yn codi, dilynwch weithdrefn ddiogelu eich ysgol.

### Cam 4: Cynnal yr arolwg

Dylai'r Arolwg Myfyrwyr gymryd tuag 20 mynd i'w ateb, ond caniatewch amser ychwanegol i'r rhai sydd angen mwy o amser. Dylai dysgwyr ateb eu harolwg eu hunain yn dawel. Os oes gan ddysgwr gwestiwn, mae croeso iddynt ateb yr ymholiad gan ddefnyddio'r holiadur wedi'i anodi, ond peidiwch ag ateb *drostynt* nac edrych ar eu hatebion. Cyfeiriwch at adran y '**Rheolau Aur**' am 'foeseg yr arolwg'.

**Dolen i'r arolwg byw**

Bydd IPSOS, ein contractwr ar gyfer yr arolwg, yn anfon y ddolen i'r arolwg atoch ddechrau tymor yr hydref. Sicrhewch eich bod wedi'i chael cyn y diwrnod pan rydych chi'n bwriadu dechrau cynnal yr arolwg.

**PWYSIG – Dim ond unwaith ddylai pob dysgwr ateb yr arolwg. Os bydd cyfrifiaduron yn peidio gweithio, cysylltwch ag IPSOS CYN ailddechrau oherwydd bydd hynny'n dyblygu eich data ac yn ei annilysu.**

Ar ôl i fyfyriwr ateb yr arolwg, bydd tudalen 'diolch' yn ymddangos a dylent glicio botwm 'Gorffen yr arolwg'.

★ Gan fod yr arolwg am iechyd a lles, atgoffwch fyfyrwyr am y ffynonellau cymorth sydd ar gael yn yr ysgol. Bydd manylion Childline yn ymddangos ar ddiwedd yr arolwg, hefyd.

★ Os bydd unrhyw broblemau'n codi, rhowch wybod i ni ar unwaith ar PrimarySHRN@cardiff.ac.uk

### Cam 5: Rhannu Adborth am yr Arolwg

Os oes gennych unrhyw adborth i'w rannu gyda'r tîm ymchwil am eich profiad o Gasglu Data'r Rhwydwaith, cysylltwch â ni ar PrimarySHRN@cardiff.ac.uk.

***Diolch am gefnogi'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion***

## Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr: Rheolau Aur

**Gwnewch fel a ganlyn …**

★ Ymgyfarwyddo â chynnwys yr arolwg a'i ddiben, fel y gallwch helpu dysgwyr gydag ymholiadau.

★ Gwirio sianeli cyfathrebu'r ysgol i weld a yw unrhyw rieni/gofalwyr wedi optio allan.

★ Cofio bod cymryd rhan yn yr arolwg yn wirfoddol a gall dysgwyr ddewis peidio â chymryd rhan os nad ydynt am wneud.

★ Sicrhau bod dysgwyr **yn ateb cwestiwn cyntaf yr arolwg yn gywir**, 'Ym mha flwyddyn ysgol wyt ti?' gan fod cwestiynau'r arolwg yn cael eu hidlo o'r eitem hon.

★ Cofio y gall dysgwyr neidio heibio i gwestiynau neu roi'r gorau i ateb yr arolwg unrhyw bryd.

★Sicrhau bod rhywbeth gennych yn barod i ddysgwyr ei wneud os yw eu rhieni/gofalwyr wedi'u tynnu nhw allan o'r arolwg, os nad ydynt am gymryd rhan, neu os byddant yn gorffen yn gyflym.

★ Dilyn **bob cam** sy'n cael ei amlinellu uchod**.**

**Peidiwch ag…**

★ Edrych ar ymatebion dysgwyr na dweud wrthynt ba opsiynau i'w dewis. Mae preifatrwydd i ddysgwyr yn bwysig.

★ Gadael i ddysgwr ailddechrau arolwg os bydd cyfrifiadur yn rhoi'r gorau i weithio neu os bydd dysgwr yn gadael yr arolwg ar ddamwain. Bydd hyn yn dyblygu ac yn annilysu'r data. Os bydd y dosbarth cyfan wedi'i effeithio, cysylltwch ag IPSOS ar shrn@ipsos.com